


Penarth

Amdiffynfeydd presennol a'r tebygolrwydd o lifogydd

Mae 1 siawns mewn 5 mewn unrhyw flwyddyn o donnau olchi dros wal y môr gan achosi difrod i adeiladau.

Disgwyliwn i lefelau'r môr godi ac i stormydd waethygu, gan gynyddu'r perygl o donnau olchi dros yr amddiffynfeydd.

Gallai tonnau'n golchi drosodd yn rheolaidd a chodiad yn lefel y môr achosi difrod i wal y môr a chwalfa yn y pendraw. Credwn y byddai hyn yn dod yn berygl difrifol ymhen 50 mlynedd os na wneir gwelliannau cyn hynny.



Beth ellir ei wneud?

Yn yr hirdymor gallai wal y môr gael ei chodi i atal y llifogydd rhag gwaethygu.

Perchennog wal y môr a'r promenâd ym Mhenarth yw Cyngor Bro Morgannwg, a byddai disgwyl iddynt hwy arwain unrhyw brosiect gwelliant.

Byddai codi'r amddiffynfeydd yn cael ei wneud yn fwyaf effeithiol mewn cyswllt â gwelliannau i'r promenâd.

Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn arwain ar fonitro erydiad yr arfordir i'r de o Benarth.

Bydd Pier Penarth yn parhau i fod yn agored i effeithiau codiad yn lefel y môr.

Nodyn ar godiad yn lefel y môr

Mae senario allyriadau canolig UKCP09 yn rhagweld codiad yn lefel y môr o 0.1m erbyn 2030, tua 0.3m erbyn 2060 a 0.7m erbyn 2110.

Ar hyn o bryd mae lefel y môr yn codi rhyw 2 i 2.5mm y flwyddyn. Os bydd y gyfradd hon yn parhau yna byddai codiad yn lefel y môr yn llai na'r hyn a ragamcanwyd gan y senario allyriadau canolig UKCP09.

Sut y penderfynwyd ar y cynigion hyn

Mae nifer fach o eiddo, busnesau'n bennaf, sydd mewn perygl llifogydd o'r llanw ym Mhenarth gan fod y tir yn codi'n serth o'r glannau. Bydd anghenion twristiaeth ac economïadd yn dueddol o benderfynu datblygiad yr ardal hon.